
# PERTHYN

**Mawrth 2023** **Rhifyn 314**




**Dydd Gweddi'r Byd**
(*Gweler Gair gan y Gweinidog a tud. 13*)

**Gwasanaeth yn Seion ar ddydd Gwener 10 Mawrth 2023**

# Gair gan y Gweinidog



Yn y flwyddyn 1988 fe ges gyfle i dreulio ychydig wythnosau gydag Eglwys Bresbyteraidd Taiwan. Ar y pryd roeddwn newydd orffen fy hyfforddiant fel athro ac ar fin dechrau yn y Coleg Diwinyddol ac felly cyfle i ehangu gorwelion a phrofi diwylliant gwahanol. Os am air i ddisgrifio'r profiad yna dwi'n credu bod y gair 'anaeddfed' yn addas. 'Doeddwn i 'rioed wedi bod dramor, 'rioed wedi bod mewn awyren, 'rioed wedi profi diwylliant gwahanol ac felly roedd y cyfan mor ddieithr. Wrth edrych nôl mae gen i ryw gywilydd mawr o ran agwedd ar y pryd ond ar ôl dweud hynny fe fu'r pedair wythnos yn brofiad ac yn addysg. Gwlad yn cael ei rheoli gan Lywodraeth Genedlaethol yw Taiwan a hynny o ddyddiau'r enwog Chiang Kai-shek ac yn byw eu bywyd dyddiol dan fygythiad gwlad Tsiena. Mae hi'n ynys hardd iawn a'r boblogaeth bresennol tua 24 miliwn. Rhan crefydd, Bwdhaeth a'r grefydd Tao yw'r rhai cryfaf gyda rhyw 6% o'r boblogaeth yn datgan eu bod yn Gristnogion. Felly mae Cristnogion yn y lleiafrif ac o blith y traddodiadau Protestannaidd, yr Eglwys Bresbyteraidd yw'r fwyaf gyda'r rhyw 238,000 o aelodau a rhyw 1,200 o weinidogion. O gofio bod poblogaeth Taiwan yn 24 miliwn, eglwys fechan yw'r Eglwys Bresbyteraidd mewn cymhariaeth ac eto eglwys sy'n adlewyrchu ffyddlondeb a gweithgaredd anhygoel. Y flwyddyn hon, bydd Dydd Gweddi'r Byd yn ffocysu ar Taiwan a'n cyswllt pellach ni fel enwad trwy bresenoldeb a gwaith Carys Humphreys, sy'n wreiddiol o Borthmadog, yn swyddfa'r Gymanfa Gyffredinol yn Nhaipei.

Y mae Dydd Gweddi'r Byd yn digwydd ar ddechrau mis Mawrth, mis ein nawddsant Dewi a mis ble mae rhywun yn cael cyfle i ddathlu ein hunaniaeth fel cenedl. 'Does gen i ddim cof o unrhyw ddathliad mewn ysgol, aelwyd a chapel pan oeddwn yn blentyn, dim sôn o gwbl am Dewi Sant heblaw'r stori gyfarwydd mewn ambell lyfr. Bellach mae pethau'n wahanol a'r pwyslais ar ddiwylliant ac iaith yn destun dathlu a gobaith. Ar y llaw arall mae yna fygythiadau real i'n cymunedau traddodiadol a'r straeon am bobl ifanc yn methu prynu cartrefi lleol yn destun pryder a thristwch. Yn sentimentalaidd weithiau mae yna alaru am sefydliadau lleol, yn siopau, ysgolion a chapeli, a chalon cymdeithas yn torri ac yn diflannu. Ond dyna'r gwirionedd ac felly'r tinc yna o bryder yng nghanol ein dathlu.

Beth sy'n rhyfeddol yw gallu unigolion a sefydliadau i oresgyn ac yn eu plith, yr Eglwys. Mae yna bobl a chymunedau sy'n gweithio'n galed i warchod iaith a diwylliant a'u hymdrechion yn esiampl ac yn ysbrydoliaeth ac felly ym mywyd yr Eglwys. I mi, rhai o eiriau mawr yr Iesu oedd y rhai sy'n sôn am 'gyflawnder bywyd' a'r ffaith fod grym yr atgyfodiad yn achosi bywyd yn ei amrywiol ffyrdd a lle bynnag mae yna fywyd, felly gobaith. Er bod Cristnogaeth gyfundrefnol ar ymylon cymdeithas bellach mae'r arwyddion o fywyd i'w weld ym mhobman gan gynnwys y Morfa. Y gwahoddiad i chi a fi yw bod yn rhan o hyn ac yng ngoleuni geiriau Dewi, ond yn fwy na hynny, llwybr ymgysegriad y Grawys, i geisio ac i weithredu'r hyn sy'n ymddangos mor fychan yng ngolwg y byd ond sy'n arwydd o Deyrnas Duw a lledaeniad Efengyl cariad a chyfiawnder.

Mewn defosiwn a gweithgaredd, gadewch i ni gerdded llwybr y Grawys.

*Eifion*

**Gweddïwn**



Arglwydd, ar adegau fel hyn,
pan nad yw'r ddaear dan ein traed
mor sicr ag oeddem ni yn ei feddwl,
a'r hyn a adeiladwyd gennym ddymchwel,
sylweddolwn mor fychan ydym
ar y blaned fregus hon..

Heddiw, yn Nhwrci a Syria,
mae pobl mewn ofn yn disgwyl am y tirgryniad_nesaf.
Arglwydd, bydd yn graig iddynt
pan mae'r ddaear yn gwrthod bod yn llonydd,
pan nad yw eu hanwyliaid na'u cartrefi'n bod bellach.

Boed i ni, sy'n rhannu'r cyfan o bell, roi yn hael
i weithredu ar unwaith ac i weddïo drostynt.
Cofiwn mai dy blant annwyl di ydym bob un,
ac er i'r mynyddoedd grynu a phopeth syrthio
ni fydd dy gariad yn gollwng gafael arnom
ac ni symudir dy addewid o obaith a heddwch:

Y mae Duw Iesu a'n Duw ninnau - yn noddfa ac yn nerth i ni….
yn Nhwrci ac yn Syria ac yn y cariad sy'n ein hamgylchynu o bob rhan o'n byd.   Amen

*Addasiad o weddi gan Lydia Funk (Church and Peace) a offrymwyd ar ddechrau cyfarfod Cristnogaeth 21, 14 Chwefror.*

# Newyddion

**Cofion a dymuniadau gorau**
Anfonwn ein cofion at Wynford Evans, Wendy Jones a Jean Porteous a fu yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf Anfonwn ein cofion hefyd at ein haelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl. Dymunwn yn dda i Mr Tom Davies sydd wedi symud i Gartref Cwmcynfelyn a Mr Wyn Thomas sydd wedi symud o'r ysbyty i Gartref tre gerddan.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Helen a Jim O'Rourke, Cari ac Alaw ar farwolaeth Mam Helen, sef Mrs Ann Jones gynt o Gapel Seion.

**Llongyfarchiadau**
**Pen-blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i David Meirion Jones sydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ac i Wynford Evans sydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 95 oed.

**Geni**
Llongyfarchiadau i Elaine ac Emyr Reynolds ar enedigaeth eu hŵyr - Connor Bili - mab i Lowri a Martin a brawd i Alaw.

Llongyfarchiadau i Margaret Stephens ar enedigaeth ei gor-wyrion – efeilliaid i Gavin a Beca yn Abertawe.

**Priodas**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Leah Macdonald a Stuart Law ar eu priodas yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau hefyd i Steffan Bonsall a Ffion Clarke ar eu priodas yn Sir Gaerfyrddin.

**Croeso** i Sioned a Matthew Jacobs a'u mab Robin sydd wedi symud o Landeilo i fyw yn Rhydyfelin ac i fod yn nes at taid, sef Huw Williams.

**Eisteddfodau Gŵyl Dewi**

*Llongyfarchiadau* i bawb sydd wedi bod yn cystadlu mewn amrywiaeth eang o gystadlaethau yn Eisteddfodau'r ysgolion cyn hanner tymor.

Llongyfarchiadau i Elan Mabbutt ar ennill y Tlws am y Llefarydd gorau yn Eisteddfod Penweddig.

**Cystadleuaeth Cantor Ifanc y Rotari**

Llongyfarchiadau i Ioan Mabbutt ar ddod yn fuddugol yn yr ail rownd a gynhaliwyd yn Ysgol Dinefwr, Llandeilo. Dymunwn yn dda iddo yn y rownd nesaf.

**COFIWCH am y CROESO CYNNES** (Paned, Cawl a Chymdeithas) yn y Morlan bob dydd Mercher o 11 tan 2 o'r gloch.

Diolch yn fawr i bawb sydd yn cynorthwyo ac yn croesawu a diolch am y rhoddion ariannol. Mae'n braf croesawu disgyblion o Ysgol Penweddig i gynorthwyo hefyd.

**Apêl Daeargryn Twrci a Syria**

Diolch am eich cyfraniadau hael tuag at Apêl Daeargryn Twrci a Syria. Neilltuwyd y casgliadau rhydd ar Chwefror 12fed a 19eg ar gyfer eu hanfon trwy Gymorth Cristnogol at Apêl DEC.

**Hadau Gobaith**

Diolch hefyd am eich cyfraniadau hael yn ystod y misoedd diwethaf tuag at Apêl Cymorth Cristnogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, HADAU GOBAITH. Bydd y Trysorydd yn anfon ein cyfraniad trwy'r Henaduriaeth i Gymorth Cristnogol ddiwedd Mawrth os oes rhywrai eto'n dymuno cyfrannu.

# Yr Ysgol Sul

Ers y Nadolig rydym wedi rhannu hanesion am Simeon ac Anna, Iesu yn ymweld â'r Deml yn ddeuddeg oed, Bedydd Iesu ac Iesu'n Galw'r disgyblion cyntaf. Yn y lluniau gwelir amrywiaeth o waith crefft a gyflawnwyd gan y gwahanol oedrannau. Maent yn seiliedig ar y storïau a'u neges i ni heddiw e.e. crysau Tîm Iesu a phoster yn dangos yr elusennau sydd yn cyflawni gwaith Efengyl Iesu Grist heddiw. Hefyd bu'r ieuenctid yn gwneud crempogau a'u rhannu hefyd!

Apêl DEC Twrci-Syria HELFA WYAU o gwmpas siopau Aberystwyth yn ystod Y Grawys (Chwefror 27-Ebrill 8) *(Chwilio am gliwiau yn y ffenestri).* Bydd yr helfa yn cychwyn a gorffen yn Y Ganolfan Groeso yn y Swyddfa Dwristiaeth (10 tan 5 o'r gloch, Llun -Sadwrn).
Dychwelwch i dderbyn bar siocled a llyfr Stori'r Pasg.

Cyfraniadau os dymunir tuag at DEC TURKEY-SYRIA Earthquake Appeal Just Giving
(Mwy o fanylion gan Catherine Griffiths neu ar Facebook Meithrin y Morfa)

*Diolch Catherine am y syniad a'r trefnu.*



# Ebeneser



**Cofion**
Anfonwn ein dymuniadau gorau at ein haelodau a’n cyfeillion yn Ebeneser a’n cofion at Llinos Hughes yng Nghartref Pennal View a Megan Morris ym Maes y Môr.

**Gwasanaethau**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun o dan ofal ein Gweinidog, Eifion Roberts, yn Ebeneser ar brynhawn Sul, Chwefror 5ed. Edrychwn ymlaen at y Gwasanaeth nesaf a Chymun ar brynhawn Sul, Mawrth 5ed am 2.15.

Mae wedi bod yn bleser ac yn fraint cael croesawu Mrs. Mair Jones, Mr John Davies a Raymond a Helen Davies i’r gwasanaethau yn Ebeneser. Gobeithio y byddant yn teimlo’n gartrefol yn ein plith.

# Lluniau o weithgareddau'r Ysgol Sul



Tîm Iesu



Disgyblion Iesu



Gwaith tîm yn gwneud crempog




Teulu Duw




Iesu yn y Deml yn 12 oed




Bedydd Iesu

## Cinio Bara a Chaws dan nawdd Cymorth Cristnogol

Bydd y cinio Bara a Chaws nesa' yn cael ei gynnal yn festri Capel y Morfa, **ddydd Llun, 6ed o Fawrth, o hanner dydd tan hanner awr wedi un o'r gloch.**

Croeso cynnes i bawb!

**Apêl Twrci a Syria**

Casglwyd cyfanswm o **£966** i'w anfon at yr apêl i gynorthwyo'r rhai sy'n dioddef wedi'r ddaeargryn yn Nhwrci a Syria.
Diolch yn fawr i chi am eich rhoddion a'ch haelioni.

# Dydd Gweddi'r Byd 2023

Bob blwyddyn caiff gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd ei ysgrifennu gan ferched Cristnogol o wlad wahanol. Eleni tro Taiwan yw hi, gwlad sydd wedi ei dal ers blynyddoedd mewn brwydr am oruchafiaeth. Mae wedi ei hynysu'n rhyngwladol ers degawdau, ac ym mis Ebrill 2022 dim ond 13 o'r 193 o wledydd sy'n perthyn i'r Cenhedloedd Unedig a Dinas y Fatican/yr Esgobaeth Sanctaidd oedd yn cydnabod Taiwan fel gwlad sofran.

Mae Tsiena yn dal i hawlio mai ei thiriogaeth sofran hi yw Taiwan, er bod y mwyafrif helaeth o bobl Taiwan yn gwrthod hyn. Mae gwir angen ein gweddïau ar bobl Taiwan ar hyn o bryd.
I grefydd nad yw ond yn cael ei harddel gan tua 6% o'r boblogaeth gyffredinol, mae Cristnogaeth yn Taiwan wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad cymdeithasol, addysg a gofal meddygol y wlad yn ei hanes diweddar.
Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys llythyron o anogaeth i ferched sy'n wynebu dioddef ac anghyfiawnder. Mae'r hanesion hyn am ffydd yn canolbwyntio ar faterion sy'n gyffredin i fenywod a merched ledled y byd ac sy'n dal i'n herio i weithredu drwy weddi.
Cynhelir y gwasanaeth Cymraeg yn Aberystwyth

- **ar ddydd Gwener**, **10fed o Fawrth am 2.30yp**
- **yn Seion, Stryd y Popty**.

Bydd aelodau o wahanol eglwysi, yn cynnwys y Morfa, yn cymryd rhan a bydd croeso cynnes i ddynion a merched.

## Adroddiadau'r Gymdeithas

### 23 Ionawr



Cyfarfu'r Gymdeithas ar 23 Ionawr. Gareth Owen a gymerodd y rhan arweiniol a chan ei bod o fewn deuddydd i Ddydd Santes Dwynwen, dewisodd ddarllen y bennod ar gariad, 1 Corinthiaid, pennod 13. Dywedodd Lona, ein cadeirydd, mai un o'n blaenoriaid, sef Rocet Arwel, oedd yng ngofal y noson a'i fod wedi dewis y teitl '*Sgriblo byw ar ddalen wen - obsesiwn â llyfr nodiadau'*. Mynnodd Rocet ei fod yn gwirioni ar gyfrolau o dudalennau gwag a'i fod am weld llawysgrifen dros y papur a hynny wrth ddefnyddio'r un pen neu feiro. Mae yn trysori cyfrolau sy'n cofnodi adegau pwysig yn ei fywyd - fel y nodyn sy'n cyfeirio at safio cyntaf pan oedd yn ei arddegau cynnar, y gyfrol sy'n cynnwys ei ddyddiadur am ei gyfnod yn yr India a'r gyfrol arall sy'n sôn am ei deulu yn ystod y clo mawr. Mae'r sgriblo, sef llawysgrifen ar bynciau amrywiol, yn creu cofnod unigryw o'i brofiadau. Diolchodd Menai i Rocet Arwel am sgwrs ddifyr am ei obsesiwn, sgwrs a hoeliodd sylw pawb o'r gynulleidfa niferus.

### 6 Chwefror



Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas ar brynhawn Llun, 6ed o Chwefror. Dilys Lloyd a gymerodd y rhan defosiynol a chyflwynwyd y siaradwr, Geraint Lewis, gan ein cadeirydd, Lona. Mae Geraint yn enwog fel awdur geiriaduron. Enillodd

*Geiriadur Gomer i'r Ifanc* wobr Tir Na Nog. Mae ganddo gyfrolau ar y Berfau, Y Treigladur a'r Diarhebion a dengys ei gasgliad o ganeuon gwerin ei ddawn gerddorol arbennig. *Y Diarhebion* oedd ei bwnc yn y Gymdeithas a chyfeiriodd at y cyfoeth o ddywediadau cryno sydd wedi goroesi yn Gymraeg ar hyd y canrifoedd, er enghraifft - "*ac wedi elwch tawelwch fu*" (Canu Aneirin). Mae'r darlun o ddathlu ac yna marwolaeth wedi selio yn y cof. Roedd Dic Jones yn feistr ar hyn a'i farddoniaeth yn frith o ddywediadau cryno, cofiadwy - "*Ni ddaw i ni ddoe yn ôl"* yw un o'n diarhebion mwyaf pwerus. Enghraifft arall yw cân Dafydd Iwan a gafodd adfywiad yn ddiweddar - "*Er gwaethaf pawb a phopeth r'yn ni yma o hyd*". Diolchwyd i Geraint gan Dewi Hughes. Dywedodd mai gŵr yn meddu ar nifer o ddoniau yw Geraint a'i fod ef am ei ddisgrifio, nid fel "y llaw sy'n rhoi sy'n casglu" ond yn hytrach fel "y llaw sy'n casglu sy'n rhoi".

## 20 Chwefror



Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas i ddathlu Gŵyl Dewi yng ngwesty'r Marine. Offrymwyd y gras cyn bwyd gan Dafydd Morgan Evans a mwynhawyd swper o gawl blasus cyn i'n cadeirydd, Lona Jones, groesawi ein siaradwr gwadd, Tudur Dylan. Diolchodd iddo am ddod atom ar fyr rybudd. Mae Tudur Dylan yn brifardd - wedi ennill y Gadair a'r Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac mae wrth ei fodd gyda geiriau. Geiriau rhai o emynau Caneuon Ffydd oedd ei destun siarad. Dywedodd fod emyn Elfed, sy'n sôn am "dysgu'r anthem cyn cael telyn yn y côr" yn dal i beri penbleth iddo! Cyfeiriodd at emyn Williams Pantycelyn "Fy Nuw, fy Nhad, fy Iesu" a'r ffaith fod y brif odl drwy'r tri phennill yn gofyn am ynganu'r geiriau yn nhafodiaith y de, er enghraifft, "nos" a "loes", "rad" a "waed". 'Dyw cynulleidfaoedd ddim yn rhoi sylw i hyn!' Nododd Tudur Dylan fod emyn arall gan Bantycelyn "Mi dafla 'maich"

yn gorffen gyda'r geiriau "ac edrych **yn** ei hyfryd wedd". Mae hyn yn fwy pwerus na dweud "edrych **ar**". Dyma brifardd sy'n ystyried a gwerthfawrogi pob gair yn yr emyn. Diolchodd Gwerfyl Pierce Jones i Tudur Dylan am ei anerchiad bywiog, llawn hiwmor ac ychwanegodd fod y noson wedi bod yn fwynhad pur.

Cofiwch am y ddau gyfarfod nesaf sef **6 Mawrth** am **7y.h.**: y Parchg Jeffrey Gainer, *Cristnogaeth a'r ieithoedd Celtaidd- rhai sylwadau* a **27 Mawrth** am **7y.h.**: sgwrs gan yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones ac arolwg o'r flwyddyn.

## Cymdeithas Gweddi a Choffi Bore Mawrth

Ar Zoom am 11 o'r gloch (pan mae siaradwyr o bell) neu yn Festri'r Morfa am 10.30.

Yn ein cyfarfod ar ddiwedd Ionawr yn ystod Wythnos Weddi am Undod Cristnogol a deuddydd ar ôl y Gwasanaeth Unedig yn Eglwys Merthyron Cymru Penparcau, cyflwynwyd rhan o'r gwasanaeth a baratowyd yn arbennig ar gyfer yr wythnos ar y thema *CYD-BERTHYN- Gweddïo am Undod yng Nghanol Anghyfiawnder*.

Yn ystod mis Chwefror cafwyd Myfyrdod ar thema'r Gwanwyn a oedd yn cynnwys, darlleniadau, barddoniaeth ac emynau. Ganol mis Chwefror ymunodd Y Parchg Nerys Griffiths â ni trwy gyfrwng Zoom. Mae Nerys newydd ei ordeinio yn Sasiwn yr Hydref ac yn Gweinidogaethu ym Methesda a'r ardal gyfagos. Soniodd am ei gwaith ymhlith oedolion a phlant ac ieuenctid a'r cyd-weithio ar draws yr enwadau i wasanaethu'r gymuned. Roedd ei ymroddiad a'i brwdfrydedd yn amlwg iawn.

# Dyma rodd deheulaw Duw

Yn yr oedfa Gymun fore Sul 5ed Chwefror fe gyflwynodd ein Bugail, Y Parch Eifion Roberts, ni i emyn Arwel Rocet Jones, wedi'i osod i gerddoriaeth gan Bethan Bryn, ac a ymddangosir yn Adran y Plant Rhaglen Cymanfaoedd Canu 2022-2023. Trysor yn wir sy'n cyrraedd at hanfod y Beibl - i blant ac i oedolion fel ei gilydd.
Darllenwch eto … gan ddiolch i Arwel a Bethan

**Cân y Beibl** *(Tôn: Bethan Bryn)*
O blith holl lyfrau mawr y byd
Hwn, i ni, yw'r map o hyd
I'n harwain ni at glo'r gist
Sy'n llawn o drysor Iesu Grist

*Cytgan*
*Penodau, adnodau a chliwiau yn llu,*
*Chwiliwn a chwalwn drwy'r geiriau am dri:*
*Tra byddwn ni byw, tri gair sy'n y cliw,*
*Cofiwn mai "Cariad yw Duw!"*

Yn hwn, cawn hanes Duw a'r byd
Sy'n ein harwain ni o hyd
Drwy ddrysfa fawr i agor cist
O drysor syml Iesu Grist

***Arwel Rocet Jones***

Maddeuwch i mi, ond yn ystod y canu crwydrodd fy meddwl yn ôl at yr hyn a ddysgais yn yr Ysgol Gynradd. Bu'r ddwy linell gyntaf yn rhygnu yn fy nghof am ddegawdau - ond y gweddill yn angof llwyr er trio a thrio gan-mil eu hadfywio (pan 'chwiliwn a chwalwn' parthed Arwel) … fe wyddoch y teimlad! Ond daeth rhagluniaeth gan ddiolch i'm cyfaill Geraint Lewis am ddwyn y cyfan i'm sylw'n ddiweddar.


Dyma'r pennill yn ei gyfanrwydd, ac addas iawn o ystyried cytgan 'Cân y Beibl' ...

**Y Beibl**
Yn hwn mae chwech a thrigain
o Lyfrau cywrain law;
Penodau pur i'n harwain
Mil, cant, wyth deg a naw.
cynhwysa o Adnodau
yn wersi da bob gair
Un fil ar ddeg ar hugain
Un cant, saith deg a thair

Tybed faint ohonom ddysgodd hwn? Pwy yw'r bardd?

Diddorol ynte … gan wybod bod y Beibl a'i werth yn aruthrol fwy na rhif y miloedd o adnodau er 'yn wersi da bob gair'.

***Dewi G. Hughes***




**Penwythnos Parêd Gŵyl Dewi**

**Bore Sul – 6 Mawrth am 10:**
**Gwasanaeth Unedig yng Nghapel y Morfa.**

**Bydd trosglwyddiad Zoom a darpariaeth i'r plant yn y festri**

# Lansio llyfr Y Sgowsar

Cafodd llyfr *"Y Sgowsar"*- hanes am fywyd Cymro Cymraeg yn Lerpwl- ei lansio yng ngwesty Llety'r Parc, Aberystwyth ddiwedd Ionawr.

Hanes bywyd John Medwyn Jones yw'r gyfrol, ac yntau wedi ei eni a'i fagu yn Lerpwl a byw yno am hanner ei fywyd cyn symud i fyw yng Nghymru.



*John yn canu "Cof am y Cyfiawn Iesu" yn y lansiad yn Llety'r Parc.*

Mae John bellach yn byw yn Llanfarian ac wedi ymaelodi yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth.

Yn ystod ei blentyndod, cafodd John gyfnod o fod yn efaciwi Cymraeg yng Nghymru yn ystod yr ail ryfel byd, gan gael lloches rhag y bomio yn Lerpwl am dair blynedd a hynny yn y cartref teuluol nôl adre yn Llanfihangel Glyn Myfyr, ger Cerrigydrudion.

Yn ei fywyd gwaith yn Lerpwl, mi ddilynodd John lwybr wedi ei throedio gan nifer fawr o Gymry yn y ddinas o'i flaen wrth fynd i'r byd adeiladu, gan ddringo i fod yn Clerk of Works ar sawl prosiect pwysig yno.


Mae John sydd bellach yn 90, yn byw ym Mryn Eglur, Llanfarian ers 2020.

"Yn rhyfedd iawn, mae yna ddau berson gwahanol wedi dweud wrtha'i dros y blynyddoedd y dylwn i sgwennu llyfr am fy mywyd, ond dim ond wedi imi gyrraedd yma yn Llanfarian y dechreuodd y syniad afael yno'i o ddifri" meddai John.

"Mi ddaru gymydog imi yna Bryn Eglur, sef Iona Mason, a pherthynas imi sy'n byw yn y pentref, Dafydd Williams hefyd fy annog i ymlaen hefo'r syniad chwarae teg iddyn nhw- a dwi'n ddiolchgar i'r ddau ohonyn nhw am hynny".

"Dwi wedi mwynhau'r broses o baratoi'r gyfrol yn fawr a dwi'n gobeithio y bydd y darllenwyr yn mwynhau ei ddarllen hefyd."

Dywedodd John ei fod wastad wedi arddel bod yn Sgowsar balch gan fod y ddinas a'i phobol wedi cael cymaint o ddylanwad arno dros y blynyddoedd.




*John Medwyn Jones- "Y Sgowsar" -o flaen yr Eglwys Gadeiriol Babyddol yn Lerpwl- y bu'n rhan o'i chodi yn yr 1960au*

"Wedyn, roedd dewis y teitl "Y Sgowsar" yn ddewis naturiol ar y llyfr mewn ffordd!" meddai.

"Cofiwch, dwi wastad wedi arddel bod yn Gymro ac yn siaradwr Cymraeg hefyd a bod yr un mor falch am hynny'r un pryd."

“Felly dwi wedi meddwl amdana fy hun erioed- fel Sgowsar ac fel Cymro gyda’i gilydd.”

Aled Gwyn Jôb o Ynys Môn ydi awdur cysgodol (ghostwriter) “Y Sgowsar” a dreuliodd rhai wythnosau yng nghylch Aberystwyth cyn y Nadolig yn holi John am ei atgofion.

“Un o’r pethau braf am fod yn awdur cysgodol ydi’r ffaith eich bod yn dod i adnabod y bobol yr ydych chi’n sgwennu amdanyn nhw yn dda, ac yn sicr dwi wedi mwynhau dod i nabod John Medwyn dros y cyfnod diwethaf hwn, gan ei fod yn dipyn o gymeriad” meddai Aled, sy’n byw yn Llangefni.

“Mae cof John yn anhygoel o feddwl ei fod yn 90, ac mae o’n llawn diddordeb byw am y byd a’i bethau o hyd chwarae teg iddo”.

“Ac mae hiwmor y Sgowsar a’u ffordd nhw o ddeud hi’n blaen am bethau ynddo'r un mor gryf o hyd!”.

Yn y lansiad yn Llety’r Parc, Aberystwyth ar Ionawr 28ain, cafodd John, sy’n denor o fri, gyfle i ganu’r emyn *Cof am y Cyfiawn Iesu* o flaen y gwahoddedigion.

Ac wedi’r emyn honno, trefnwyd i ganu emyn seciwlar arbennig fel modd i gloi’r cyfarfod hefyd fel syrpreis i John.

Wrth i Gwion Jones, o’r grŵp *Sgarmes* ddod i’r ystafell i ganu’r anthem *You’ll Never Walk Alone*- can bwysig iawn ym mywyd John ac yntau wedi bod yn gefnogwr brwd i dîm pêl-droed Lerpwl ar hyd ei fywyd.

*Mae llyfr Y Sgowsar wedi ei hunan-gyhoeddi ac ar werth am £7.99.*

*Ar hyn o bryd, gallwch gael copi un ai gan John ei hun:*
*01970 591585 neu trwy ffonio Aled Gwyn Jôb ar 07818 068 205 neu e-bostio aled.job@btopenworld.com*

*Y gobaith hefyd yw gwerthu'r llyfr mewn siopau llyfrau maes o law.*

***Aled Gwyn Jôb***

# William Raymond Jones

Brodor o Flaenau Ffestiniog oedd Raymond, yn fab i'r diweddar William Benjamin a Gwen Jones. A hithau'n ddyddiau tywyll yr Ail Ryfel Byd, ni welodd ei dad hyd 1946 ac felly dylanwad mam a taid a nain fu'n drwm ar ei gerddediad cynnar. Yn dilyn ei addysg elfennol dechreuodd weithio fel postmon ond buan iawn y trodd ei olygon tuag at Lundain a hynny wrth iddo dderbyn swydd weinyddol yn yr 'Admiralty' o bob man. Byddai'n sôn am y blynyddoedd hynny gyda anwyldeb a'r gymuned Gymreig mewn addoliad a hamdden yn gymorth iddo addasu ac ymsefydlu. Dechreuodd gael gwersi canu ac 'roedd yn meddu ar lais tenor swynol.

Ond mi roedd yna hiraeth i ddychwelyd i'r Blaenau ac ail gydiodd yn ei waith gyda'r Swyddfa Bost. Cyfarfu Brenda o Bryn Elltyd, Tanygrisiau, cyfarfyddiad arweiniodd at garwriaeth ac ymhen amser, priodas. Bendithwyd yr uniad gyda dyfodiad Maria, Paula a Peter a bu'n dad, taid a hen daid cariadus a gofalus trwy gydol ei fywyd. Yn dilyn cyfnod byr gyda'r RSPCA, symudodd i Swyddfa Bost, Aberystwyth ac ymhen amser i Hwlffordd a daeth Siroedd Penfro a Cheredigion yn gartref iddo ef a'i deulu hyd ei farwolaeth. Tra'n gweithio yn Hwlffordd, yn dilyn anogaeth ei weinidog, y diweddar Richard Williams, dechreuodd bregethu ac ymhen amser trodd ei olygon tuag Y Coleg Diwinyddol Unedig, Aberystwyth a dilyn cwrs arweiniodd at ei ordeiniad yn 1990. Dychwelodd i Sir Benfro ac i ofalaeth Abergwaun oedd yn cynnwys Pen-towr, Gwdig, Trefdraeth, Brynhenllan, Glan-rhyd a Tyddewi gan symud ymhen amser i Aberteifi ynghyd â Blaenannerch, Aber-porth, Blaen-cefn, Tan-y-groes a Bryn Seion. Bu'n fugail cydwybodol, uchel ei barch gyda phwyslais mawr ar ddefosiwn personol a chynulleidfaol. Byddai'n darparu'n ofalus a hynny yn ei lawysgrifen ei hun a'i ofal bugeiliol a'i weddïau tros ei aelodau yn gysur ac yn gynhaliaeth.

Wedi ymddeol dychwelodd ef a Brenda i ardal Aberystwyth gan fwynhau hamdden ymhlith teulu a ffrindiau. Bu'n ffyddlon i oedfaon a chyfarfodydd wythnosol Capel y Morfa gan barhau i wasanaethu capeli'r ardal. Ergyd drom iddo oedd marwolaeth ei annwyl Brenda a

hynny'n dilyn cyfnod byr o salwch a threuliodd ei flynyddoedd olaf mewn cartrefi gofal gan derfynu'r daith yng Nghartref Brondesbury Lodge, Aberteifi. Yn berson annwyl a diymhongar, bu'n ffrind da i'w gyd-weindigion ac yn was ffyddlon, tawel i'w Arglwydd.
Cydymdeimlwn yn ddwys â Maria, Paula, Peter a'u teuluoedd yn eu colled ynghyd â'i frawd, Emlyn.

Bu'r angladd yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, ac yn dilyn yr Amlosgfa, gyda'r Parchedigion Eifion Roberts a Llunos Gordon yn gwasanaethu.

*Eifion*



**Golygydd y rhifyn hwn yw Hywel Lloyd.**
**Cyfraniadau ar gyfer rhifyn mis Ebrill o Perthyn i Hywel (hywel.lloyd6@gmail.com)**
**erbyn dydd Gwener 17 Mawrth, os gwelwch yn dda.**

## Blaenor y mis: Rhidian Griffiths

## Dyddiadur Mawrth 2023

**Gwasanaethau'r Sul: 10 y bore yng Nghapel y Morfa ac ar Zoom. 2:15 y prynhawn yn Ebeneser.**

5 Mawrth - Y Bugail
12 Mawrth - Y Parchg John Roberts
19 Mawrth - Y Bugail
26 Mawrth - Y Parchg Beti Wyn James

**Rhestr flodau mis Mawrth Capel y Morfa**

5 Mawrth - Gwyl Dewi. Penwythnos y Parêd
12 Mawrth - Blodau’r Bedol Llanrhystud
19 Mawrth - Janet Sutton a Anna Williams
26 Mawrth - John a Beti Roberts

**Ysgol Sul** Plant ac ieuenctid: yn y festri.

**Cylch gweddi a choffi:** Bore Mawrth am 11 y.b. ar Zoom.

**Ffydd a phaned:** Prynhawn Gwener am 2 y.p. ar Zoom.

**Y Gymdeithas**

6 Mawrth: *Cristnogaeth a’r Ieithoedd Celtaidd- Rhai sylwadau* gan Y Parchg Jeffrey Gaynor.

27 Mawrth: Noson yng nghwmni Elin Haf Gruffydd Jones a Chyfarfod Blynyddol.